# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Chwefror 2017

Amser: 14.00 - 16.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3910

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Debra Carter, Llywodraeth Cymru<br>Graham Hinchey, City of Cardiff Council<br>Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>Jon Rae, Welsh Local Government Association (WLGA) |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Nick Selwyn - Swyddfa Archwilio Cymru<br>Dave Thomas - Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac estynnodd groeso i Jennette Arnold, Dirprwy Gadeirydd Cynulliad Llundain a Katie Smith, Pennaeth Craffu yng Nghynulliad Llundain.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
1.3 Datganodd Neil McEvoy fuddiant fel Cynghorydd ar Gyngor Dinas Caerdydd a'i fod yn adnabod Graham Hinchey o Gyngor Dinas Caerdydd.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Cytunodd y Pwyllgor i godi pryderon am fesurau gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru gyda'r Ysgrifennydd Parhaol yn ddiweddarach yn y tymor.

### 2.1 Sesiwn ymadawol: Llythyr gan Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (24 Ionawr 2017)

### 2.2 Adroddiad y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol 2015-2016

## 3 Dull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau

Corfforaethol a Pherfformiad, Cyngor Dinas Caerdydd ar ddull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl.
3.2 Cytunodd Jon Rae i wirio ac anfon gwybodaeth bellach am unrhyw gynlluniau yng Nghymru sy'n cynhyrchu incwm ar gyfer awdurdodau lleol.
3.3 Cytunodd Graham Hinchey i anfon manylion ariannol y cynlluniau a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd ers 2012 sy'n cynhyrchu incwm ar gyfer yr awdurdod lleol ynghyd ag enghreifftiau o gynlluniau arloesol y mae'r awdurdod lleol wedi'u cyflwyno sydd o fudd i awdurdodau lleol eraill drwy rannu arfer da.

## 4 Dull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Crafodd y Pwyllgor ar waith Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ar ddull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl.
4.2 Cytunodd Reg Kilpatrick i anfon manylion am enghreifftiau o arfer da yn Lloegr lle mae nifer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull newydd o greu cwmnïau masnachu i gynhyrchu incwm.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Dull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Ystyriodd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gyda sylwadau fel rhan o'u hystyriaeth o'r Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol.

## 7 Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Ystyriodd Aelodau'r adroddiad drafft a gwneud nifer o awgrymiadau a fydd yn cael eu hymgorffori mewn fersiwn ddrafft arall. Trefnir bod y Pwyllgor yn ystyried hyn ymhellach.